# Y CABINET DYDD MAWRTH, 22 TACHWEDD 2022

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn**,** Craig ab Iago, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Ioan Thomas.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Adran Gyllid), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 7: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Wyn Williams (Rheolwr Cefn gwlad)
Eitem 8: Carys Fon (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo) a David Mark Lewis (Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol)
Eitem 9: Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)
Eitem 10: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith)
Eitem 11: Catrin Roberts (Aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
Eitem 12: Sophie Ann Tyne Hughes (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Gweithlu)
Eitem 13: Catrin Thomas (Dirprwy Bennaeth Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Nia Jeffreys a'r Cyng. Menna Jones.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fudiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion ar gyfer y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 27 Medi a 7 Hydref 2022 fel rhai cywir.

## 6. PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNIAD**

Argymell i'r Cyngor llawn ar 1 Rhagfyr 2022 mai'r canlynol yw'r opsiwn a ffafrir o safbwynt lefel y Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24:

- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).
- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. cynyddu o 100% i 150%).
- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn gam yn y drefn llywodraethu wrth i'r Cyngor symud ymlaen i wneud penderfyniad ar sut i ymateb i newidiadau deddfwriaethol diweddar o safbwynt y Premiwm Treth Cyngor.

Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw benderfyniad ar raddfa'r Premiwm ar ben ei hun yn datrys y broblem y sefyllfa ddifrifol a niferoedd ail gartrefi o fewn ardaloedd yng Ngwynedd. Eglurwyd fod y defnydd o'r broses gynllunio a sicrhau trwyddedu ail gartrefi yn llawer mwy perthnasol. Croesawyd ymateb diwedd Llywodraeth Cymru gan amlygu mai dyfalbarhad wrth lobio a chyflwyno tystiolaeth y Cyngor sydd wedi sicrhau gweithredu.

Esboniwyd fod Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi ychwanegu adrannau newydd i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mynegwyd fod y cymalau newydd yn caniatáu i awdurdodau bilio Cymru i godi Treth Cyngor ychwanegol ar ddosbarthiadau penodol o eiddo. Eglurwyd mai'r sefyllfa diofyn yn Neddf 1992 yw rhoi disgownt o 50% i'r eiddo os nad yw'r Cyngor yn gwneud penderfyniad pob blwyddyn i'w ariannu o goffrau'r Cyngor. Mynegwyd fod gan y Cyngor hawl dewisol ers sawl blwyddyn i beidio rhoi disgownt i'r eiddo yma, ac ers 2017 yr hawl i godi premiwm.

Amlygwyd fod y Cyngor wedi codi premiwm o 50% ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2021, ac yna 100% ers 1 Ebrill 2021. Esboniwyd ar yr achlysuron ble cyflwynwyd y Premiwm a'i gynyddu fod gwaith sylweddol wedi ei wneud i asesu'r sefyllfa ynghyd a chynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mynegwyd fod Adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 wedi eu newid eto yn ddiweddar a bydd y newidiadau yn weithredol o 1af Ebrill 2023. Nodwyd fod y newidiadau hyn wedi eu gwneud yn ei wneud yw cynyddu lefel y Premiwm gall awdurdodau lleol ei godi. Eglurwyd y bydd modd codi hyd at 300%.

Bu i'r Pennaeth Adran dywysu drwy ganlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus. Eglurwyd fod y Cabinet wedi cytuno ddiwedd Medi i gomisiynu Ymgynghoriad Cyhoeddus i dderbyn barn y cyhoedd ar sut dylai'r Cyngor ymateb i'r ddeddf. Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y 30 Medi ac roedd yn agored tan 28 Hydref. Eglurwyd ei bod yn hanfodol i weithredu yn unol â'r gyfraith i ymgysylltu gyda rhan ddeiliad allweddol ac o ganlyniad bu i lythyrau uniongyrchol gael eu hanfon at y perchnogion.

Derbyniwyd 7,330 o ymatebion i'r holiadur ac mae hyn ymhell tu hwnt i niferoedd arferol sy'n ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus arferol a dros fil o ymatebion yn fwy na'r ymgynghoriad tebyg a gynhaliwyd ddwy flynedd yn ôl. Mynegwyd fod dros hanner o'r ymatebwyr yn nodi nad oeddent yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hir dymor. Nodwyd fod 47% yn berchen ar ail gartref a llai na 3% yn dweud eu bod yn berchen ar annedd gwag hir dymor.

Ategwyd fod y canlyniadau yn nodi fod 58.7% o'r ymatebion o'r farn fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd yn gynnydd o'r ffigwr cyfatebol o 55.1% pan gynhaliwyd ymgynghoriad tebyg lai na dwy flynedd yn ôl. Amlygwyd fod 27.7% yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith negyddol gyda 8.2% yn credu nad ydynt yn cael effaith ar y cyfan. Eglurwyd fod gwahaniaethau amlwg rhwng barn yr ymatebwyr oedd yn berchen ail gartrefi a'r rhai nad ydynt. Nodwyd fod 80% o'r ymatebwyr sydd yn berchen ail gartrefi yn credu fod ail gartrefi yn rhoi effaith gadarnhaol, tra fod 39% o'r rhai sydd dim berchen ail gartref nac annedd gwag hir dymor o'r un farn. Amlygwyd fod hyn eto yn gynnydd arwyddocaol o'r ffigwr cyfatebol o 27% llai na dwy flynedd yn ôl. Mynegwyd fod 48% o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hirdymor yn meddwl bod ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra mai dim ond 5% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref sydd o'r farn yma.

Nodwyd fod gwahaniaeth barn clir am gynyddu'r premiwm rhwng y rhai sydd berchen ail gartrefi a rhai nad ydynt. Amlygwyd fod y rhai sydd eisoes yn talu'r premiwm ddim yn awyddus talu mwy, gyda llai na hanner o'r rhai nad ydynt yn talu'r premiwm yn cefnogi cynyddu'r premiwm.

O ran ymatebion am safbwynt eiddo gwag hirdymor nodwyd fod oddeutu tri chwarter o'r rhai a ymatebodd o'r farn fod eiddo gwag hir dymor yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol. Amlygwyd fod 82% o'r rhai sy'n berchen eiddo gwag yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ond amlygwyd fod niferoedd a ymatebodd i'r ymgynghoriad a oedd yn datgan eu bod yn berchnogion eiddo gwag hirdymor yn isel. Pwysleisiwyd mai ymgynghoriad oedd hwn yn chwilio am farn a sylwadau er mwyn cynorthwyo'r Cabinet a'r Cyngor i wneud penderfyniad.

Cyflwynwyd y mater yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ogystal er mwyn cael ei graffu. Pwysleisiwyd nad eu rôl oedd awgrymu lefel y Premiwm ond i fodloni ei hun fod y dystiolaeth oedd wedi ei gasglu yn ddigonol er mwyn dod i benderfyniad rhesymol ar sail y wybodaeth. Eglurodd y Pennaeth Cyllid y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ymysg y sylwadau hyn oedd anfodlonrwydd un aelod o'r Pwyllgor am y sylw a roddwyd i'r effaith ar y Gymraeg o fewn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Ym marn yr aelod yma nid oedd ystyriaeth ddigonol wedi ei roi i effaith y premiwm ar y garfan frodorol sy'n siarad Cymraeg. Pwysleisiwyd yn ogystal nad oes tystiolaeth am yr angen am 2000 o dai newydd yn ardal Dwyfor ac fod angen i asesiad effaith ieithyddol cynhwysfawr gael ei gwblhau.

Amlygwyd fod angen nodi pa mor llwyddiannus mae'r premiwm wedi bod ac yn nodi sut mae'r niferoedd o ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor wedi newid dros amser ers cyflwyno'r Premiwm. Amlygwyd fod un aelod o'r Pwyllgor wedi cwestiynu moesoldeb codi arian gan bobl o un rhan o'r sir i ddiwallu effaith digartrefedd mewn llefydd eraill a'i fod yn awyddus i'r adroddiad ddangos rhestrau aros am dai ymhob ward.

I orffen bu i'r Aelod Cabinet nodi wrth wneud unrhyw newid arwyddocaol sy'n effeithiol ar bobl, fod yn rhaid i'r Cyngor ystyried os oes digon o gyfiawnhad wedi ei gasglu i wneud hyn gan ystyried gwir effaith ar bobl Gwynedd. Eglurwyd fod angen i'r Cyngor weithredu'n rhesymol ar sail y dystiolaeth. Nodwyd fod dewis damcaniaethol i ostwng neu ddiddymu'r premiwm ond eglurwyd fod yr arian sydd yn cael ei gasglu yn cael ei glustnodi i bwrpas penodol, sef cefnogi Cynllun Gweithredu Tai. Mynegwyd ar yr un modd byddai angen cyfiawnhad cadarn iawn dros gynyddu'r Premiwm i 300%, ac eglurwyd nad yw'r adran o'r farn fod hyn yn bodoli ar hyn o bryd. Felly ar ôl ystyried yr ymgynghoriad a'r sefyllfa bresennol yn y sector tai dwi'n argymell cadw'r Premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn 100% a chynyddu'r Premiwm ar ail gartrefi i 150%.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad ac amlygwyd y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Amlygwyd y cwestiwn cyson sydd wedi ei godi gan nifer o'r ymatebion os oes eithriadau i'w cael os oes gan unigolion gysylltiadau lleol, gan fod pryder gan unigolion sydd wedi trosi adeiladau yn llety gwyliau yn dilyn cais cynllunio y bydd angen talu treth am y tro cyntaf. Eglurwyd fod eithriad statudol yn eithrio tai tymhorol yn unig a'r trefniadau cynllunio sydd yn methu cael ei meddiannu am flwyddyn gyfan. Eglurwyd fod cynnig ger bron ar hyn o bryd i addasu'r geiriad i fod yn gallu ei feddiannu am flwyddyn gyfan ond nad os modd ei ddefnyddio fel prif gartref. Amlygwyd fod modd defnyddio eithriadau dewisol yn unol ag Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol i roi'r hawl i'r Cyngor addasu bil treth Cyngor unrhyw annedd yn y sir os yn gallu bodloni fod lles cymdeithasol ac ehangach i drethdalwyr o'i wneud. Ond pwysleisiwyd er bod yr eithriadau ar gael fod angen rhoi gwir ystyriaeth i gydraddoldeb pan yn eithrio unrhyw annedd gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth benodol yma.
- Nodwyd fod canlyniad yr ymgynghoriad wedi amlygu nad yw'r sefyllfa yn ddu a gwyn. Eglurwyd fod disgwyliad i'r ymgynghoriad amlygu fod unigolion ag ail gartrefi am bwysleisio peidio codi premiwm, ac unigolion heb ail gartref yn dweud i godi'r premiwm i 300% ond nid dyma'r canlyniad. Nodwyd fod hanner o'r unigolion heb ail gartrefi yn cytuno â pheidio cynyddu'r premiwm, a hyn o ganlyniad i gyflogaeth a bywoliaeth nifer o bobl yn ddibynnol ar ail gartrefi a phryderon am deuluoedd yn etifeddu ail gartrefi.
- Mynegwyd fod yr adroddiad hwn yn gynhwysfawr ond eglurwyd yr angen hefyd i ddadansoddi gwybodaeth hanesyddol yn ogystal, megis yr ymchwil i ail gartrefi. Nodwyd y prif gwestiwn sydd angen ei ateb yw sut i ddatrys problemau sy'n bodoli mewn cymunedau o ganlyniad i ail gartrefi. Amlygwyd fod dros 5000 o dai o fewn y sir yn wag nifer helaeth o'r flwyddyn tra fod niferoedd digartref ac eisiau prynu tai yn uchel tu hwnt. Er hyn amlygwyd er fod gan y Cyngor hawl i godi'r premiwm i 300% ni ddylid gwneud hyn heb gyfiawnhad. Eglurwyd fod ei godi i 150% yn mynd i godi £3m a hynny mewn blwyddyn ble mae'r Cyngor wedi gorwario £3m ar y maes digartrefedd ac ei bod yn edrych yn debygol y bydd yn codi eto y flwyddyn nesaf, amlygwyd felly fod y cynnydd o 150% yn rhesymol ar hyn o bryd.

- Holwyd er fod unigolion ag ail gartrefi wedi derbyn llythyr yn amlygu'r ymgynghoriad holwyd os oedd angen gwneud hyn ar gyfer y digartref, y rhai ar restrau aros neu'r rhai sydd methu fforddio tai yn eu cymunedau ac amlygwyd efallai y buasai'r ymatebion wedi bod yn wahanol. Mynegwyd fod cynnydd i 300% eleni i'w weld braidd yn uchel ac fod ei gynyddu i 150% yn deg ac yn ymateb i'r problemau sydd i'w gweld yn y maes tai.
- Cadarnhawyd fod bwriad newid yr eithriadau statudol fydd yn golygu bydd unrhyw fusnes lleol sydd â thai gwyliau ble mae amodau cynllunio yn eu cyfyngu i ddefnydd gwyliau wedi eu heithrio o dalu'r Premiwm, ond nodwyd nad oes angen caniatâd er mwyn cael tai AirBnB. Nodwyd fod nifer o'r rhain yn plethu i fusnesau ac o ganlyniad yn talu treth busnes. Eglurwyd fod newid ar droed gyda treth busnes yn nodi'r angen i osod yr eiddo 182 o ddyddiau'r flwyddyn ac os na fydd hyn bosib y bydd angen mynd yn ôl i dalu treth Cyngor. Amlygwyd mai cyfrifoldeb y Swyddfa Prisiwr fydd i gadw golwg ar hyn.
- Pwysleisiwyd fod digartrefedd cudd yn bodoli ar draws y sir gyda unigolion yn aros ar soffa neu yn methu symud o'i cartref. Croesawyd fod yr arian ychwanegol yn sgil y premiwm yn mynd i gynorthwyo y maes digartrefedd a nodwyd y bydd angen adolygu yn gyson er mwyn cadw golwg ar y sefyllfa.
- Amlygwyd nad oes bai ar yr unigolion sydd yn berchen ail gartrefi ac mai argyfwng tai sydd i'w weld ar draws y sir. Pwysleisiwyd fod angen atgoffa mai bai Llywodraeth San Steffan yw'r sefyllfa yma, ac er fod Senedd Caerdydd yn ceisio gwella'r sefyllfa nid yw'n ddigonol ac nid yw'n ymateb ddigon cyflym. Eglurwyd yn ogystal fod hon yn broblem gynyddol sydd i'w gweld ar draws Prydain.
- Eglurwyd fod y mater yn un cymhleth ac nad yw'n sefyllfa du a gwyn, ond fod angen ystyried yr holl ddogfennau ynghyd a sefyllfa ein cymunedau ac fod argymhelliad presennol i'w godi i 150% yn un call ar hyn o bryd.

## 7. MABWYSIADU'R CYNLLUNIAU GWELLA HAWLIAU TRAMWY

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadu y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Adran Amgylchedd i wneud addasiadau ansylweddol i'r ddogfen cyn ei chyhoeddi.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad. Eglurwyd fod Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn amlygu dyletswydd ar y Cyngor i fod yn cyhoeddi ac yn adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Ychwanegwyd fod y cynllun hwn yn cael ei ddefnyddio fel arf i wella'r rhwydwaith yn ogystal. Mynegwyd fod y Cynllun wedi bod ar dipyn o daith cyn cyrraedd y Cabinet a oedd yn cynnwys Pwyllgor Craffu yn ôl yn 2021, ymgynghoriad cyhoeddus am 3 mis dros gyfnod yr haf cyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ym mis Hydref i drafod canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus. Atebwyd fod man addasiadau wedi ei gwneud i'r Cynllun yn dilyn y Pwyllgor Craffu.

Nodwyd mai gofyn sydd yma i fabwysiadu'r Cynllun ac i roi hawl i'r Pennaeth Adran wneud man addasiadau ieithyddol cyn i'r ddogfen gael ei chyhoeddi.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad a codwyd pryder am y newid i roi hawl i farchogaeth ar bob llwybr cyhoeddus. Holwyd am sut y bydd asesiadau risg yn cael ei gwneud yn benodol ar lwybrau sydd ar ochor ffordd. Nodwyd fod yr addasiad wedi ei wneud o ganlyniad i anghysondeb ar draws y sir ac fod gofyn rhesymol wedi bod i gael ei ddefnyddio gan geffylau, eglurwyd y bydd asesiadau risg yn cael eu cynnal a bod yr addasiad yn benodol ar gyfer llwybrau oddi wrth y ffordd fawr.
- Holwyd am y broses o adnabod Llwybrau Llesiant y sir gan nad yw Bala wedi'i gynnwys. Eglurwyd fod amodau penodol i'w gweld sydd yn cael ei gwrio gan Lywodraeth Cymru o ran Llwybrau Llesiant ac yn ffafrio canolfannau ble mae'r boblogaeth yn gweithio yn yr ardal ac angen ffordd amgen o gyrraedd y gwaith. Mynegwyd o ganlyniad fod angen bosib adolygu hyn er mwyn cynnwys cymunedau fwy gwledig.

**8. CYNLLUN PANELI PV CYNHYRCHU TRYDAN – GWEDD 4**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNIAD**

Bwrw 'mlaen i fuddsoddi £2.8m yn y bedwaredd wedd o'r cynllun paneli PV cynhyrchu trydan gan arwain at arbediad refeniw blynyddol.

Ariannu'r buddsoddiad cyfalaf o gronfeydd y Cyngor gan arwain at arbedion refeniw parhaol yn syth fel cyfraniad i'n cynllun arbedion / toriadau.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cyngor yn arwain yng Nghymru ac o bosib Prydain am y camau mae'n ei wneud i leihau ôl troed carbon. Eglurwyd fod camau yn cael ei gwneud ar draws y Cyngor i wneud y newidiadau pwysig yma er mwyn edrych ar ôl yr amgylchedd ac yn ogystal er mwyn arbed arian.

Mynegodd y Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol mai dyma bedwaredd wedd y Cynllun Solar sydd wedi bod yn gynllun hynod lwyddiannus. Eglurwyd fod gwedd 3 wedi dod i ben o ganlyniad i newid gan y Llywodraeth ond o ganlyniad i leihad mewn costau paneli solar a chynnydd mewn costau ynni mae hyn wedi arwain at greu gwedd 4. Pwysleisiwyd fod y Cynllun wedi ei sefydlu ar gostau ynni heddiw, ac felly os costau ynni yn parhau i godi mae'n amlygu fod yr achos busnes ar ei gyfer yn aeddfed.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad, a holwyd os mai gwedd 4 fydd y cam olaf. Eglurwyd mai dyma fydd y cam olaf o safbwynt adeiladau'r Cyngor ond fod opsiynau pellach yn bodoli yn dilyn hyn megis Ffermydd Solar.
- Amlygwyd fod y cynllun hwn yn un sydd yn lleihau carbon ac yn cynorthwyo'r Cyngor gyda cyfarch y bwlch ariannol. Mynegwyd fod gofyn yma i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i'w ariannu fod bod modd derbyn yr arbedion ariannol o ganlyniad i'r Cynllun yn syth.

## 9. DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2021 - HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD (DRAFFT) 2021/22

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Hunanasesiad Cyngor Gwynedd (Drafft) 2021/22 gan dderbyn argymhellion a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai dyma'r Hunanasesiad cyntaf i'r Cyngor ei wneud sydd yn edrych yn ôl ar 2021/22. Eglurwyd fod gofyn statudol newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi'r angen i'w greu a'i gyhoeddi yn flynyddol. Ychwanegwyd fod yr hunanasesiad yn tynnu ar dipyn o ffynonellau gwybodaeth a thystiolaeth a bod nifer o'r wybodaeth wedi ei gyhoeddi yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac yn Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol. Pwysleisiwyd er mwyn cadw'r adroddiad yn gryno fod cyfeiriad at y dogfennau yma.

Nodwyd fod y ddeddf yn nodi disgwyliad i gyflwyno drafft o'r Hunanasesiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn derbyn sylwadau. Mynegwyd fod hyn wedi digwydd wythnos diwethaf ac fod un sylw wedi ei dderbyn sef yr angen i gyfeirio ar yr hyfforddiant sydd ar gael i Gynghorwyd o dan Cynllunio Corfforaethol er mwyn adnabod y gwaith da sy'n digwydd o fewn y Cyngor.

Eglurwyd mai dyma'r tro cyntaf i gyflwyno'r Hunanasesiad ac mae ymdrech wedi ei wneud i'w gadw yn gryno ac yn ddarllenadwy. Esboniwyd fod trefniadau yn parhau i ddatblygu o ran ei baratoi ac fod trefniadau i'r dyfodol i'w gyfuno gyda threfniadau herio perfformiad ac i'w gynnwys yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro fod hon yn drefn newydd ac fod gofyn statudol i fynd i ymgynghoriad ar y drefn ond fod hynny i ddod.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod y bwriad i'w gyfuno â'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn gyfle i ychwanegu haen arall o lywodraethant o fewn y Cyngor. Fod Cynllun y Cyngor yn dangos beth mae'r Cyngor am ei wneud, Adroddiad Perfformiad yn nodi beth sydd wedi ei wneud ac fod hwn fel haen yn y canol yn amlygu pa mor dda mae'r Cyngor wneud gwneud y gwaith.

## 10. CYNLLUN DEISEBAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Cynllun Deisebau ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn gofyn i gymeradwyo'r Cynllun Deisebau a'i argymell i'r Cyngor Llawn nesaf i'w fabwysiadu. Eglurwyd fod gofyniad statudol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 i'r Cyngor fod yn mabwysiadu Cynllun Deisebau. Mynegwyd fod y Cynllun yn nodi sut y bydd y Cyngor yn ymdrin â deisebau pan yn eu derbyn.

Nodwyd fod deiseb yn ffordd y gall unigolion, grŵp cymunedol a sefydliadau godi materion sy'n peri pryder iddynt a rhoi cyfle i Gynghorwyr ystyried yr angen am newid. Ychwanegwyd fod y cynllun yn gosod camau ar sut i gyflwyno deiseb a'r hyn y gellir ei ddisgwyl fel ymateb a'r camau fydd yn cael ei wneud gan y Cyngor. Pwysleisiwyd fod rhai achosion megis ail strwythuro ysgolion yn dilyn gofynion cyfreithiol a statudol am ymgynghori a chyfnodau ymateb statudol a ni fydd deiseb yn cael ei dderbyn tu allan i'r trefniadau hyn.

Amlygwyd fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi trafod y Cynllun wythnos diwethaf, a derbyniwyd sylwadau ac mae man addasiadau wedi eu gwneud i'r Cynllun yn dilyn y trafodaethau yma.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
- Holwyd os yn derbyn y ddeiseb bod modd cael ei drafod gan Aelod Cabinet, y Cabinet neu Cyngor Llawn a holwyd pwy sy'n dewis lefel y penderfyniad. Eglurwyd ei fod yn ddibynnol ar natur y ddeiseb ac ei fod yn dilyn trywydd synhwyrol.
- Cwestiynwyd os yw'r cynllun yn wahanol i beth sydd yn digwydd yn bresennol Eglurwyd fod y Cynllun hwn yn ffurfioli'r trefniadau ac yn codi ymwybyddiaeth trigolion.
- Nodwyd fod yn braf gweld y Cabinet yn gallu ymlacio wrth drafod gofynion y Ddeddf ac fod hyn o ganlyniad i drefniadau llywodraethu cadarn iawn sydd i'w weld mewn nifer o dimau sydd yn gweithio yn y cefndir ar draws y Cyngor.

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad a nodi'r gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2021/2022 yn y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod hon yn adroddiad Blynyddol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Esboniwyd fod yr adroddiad yn amlygu gwaith y bwrdd ar gyfer 2021/22 ac wedi ei lunio a'i ysgrifennu i fodloni canllawiau'r Llywodraeth. Eglurwyd fod y bwrdd wedi ei sefydlu yn ôl yn 2014, er mwyn cydymffurfio a rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015.

Tynnodd y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol sylw at y prif bwyntiau a'r gwaith allweddol sydd yn cael ei wneud yn y rhanbarth. Eglurwyd mai rôl y Bwrdd yw i ddod a phartneriaid at ei gilydd er mwyn integreiddio gwasanaethau pan yn bosib. Mynegwyd fod y system lywodraethu yn un gymhleth ond mai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r prif fwrdd ac mae'n gyfrifol am rhoi cyfeiriad clir i weithio mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth ynghyd a sicrhau fod gwaith yn cael ei gyflawni. Esboniwyd fod y bwrdd yn adrodd i Fwrdd Arweinwyr y Gogledd.

Amlygwyd fod 2 brif raglen i'w gweld yn gan y Bwrdd yn 2021/22 sef Cronfa Gofal Integredig a Rhaglen Trawsnewid. Eglurwyd fod y gronfa Gofal Integredig wedi ei sefydlu yn ôl yn 2014, ac wedi galluogi'r rhanbarth i weithio gyda'i gilydd i gynorthwyo pobl hyn ag anghenion cymhleth, plant ag anghenion cymhleth, gofalwyr a phlant mewn gofal neu mewn peryg o fynd i ofal. Nodwyd fod y rhaglen Trawsnewid wedi ei sefydlu yn Ebrill 2018 gyda'r pwrpas o wella gwasanaethau a oedd i gychwyn yn gynllun 3 blynedd, ond y bu iddo ymestyn o ganlyniad i'r pandemig.

Esboniwyd fod y ddwy raglen wedi dod i ben yn 2021/22 ac fod rhaglen newydd bellach ers Ebrill 2022, sef Cronfa Integreiddio Rhanbarthol. O ganlyniad mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o waith y ddwy brif raglen ynghyd a prif bwyntiau a godwyd o'r gwerthusiad a oedd yn cynnwys y cyfleoedd i ddatblygu cynlluniau a gwella perthynas rhwng partneriaid. Mynegwyd fod arian wedi bod yn broblem gan fod y gyllideb wedi bod am flwyddyn unig ac felly yn ei gwneud yn anodd i gynllunio ymhellach.

Mynegwyd fod y tîm wedi bod yn gweithio yn ogystal ar greu Asesiad Anghenion Poblogaeth a oedd yn cynorthwyo'r rhanbarth i ddatblygu blaenoriaethau ac i awdurdodau lleol allu cynllunio yn lleol. Nodwyd i'r dyfodol fod y Pwyllgor yn awyddus i adeiladu ar waith eleni ac i gynllunio ar gyfer y 5 i 10 mlynedd nesaf.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad hwn yn edrych yn benodol ar ddiwedd cyfnod Morwena Edwards yn ei swydd. Nodwyd fod yr adroddiad yn amlygu ei fod yn faes llawer ehangach na gofal yn unig gydag elfennau i'w gweld yn y maes Tai ac Addysg. Amlygwyd fod dylanwad y Bwrdd yn holl bwysig wrth symud ymlaen.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd balchder o wedi buddsoddiad am gyfnod mwy 'na blwyddyn fel bod modd i'r Bwrdd gynllunio i amserlen realistig i drawsnewid gwasanaethau.

**12. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn rhoi diweddariad ar waith yr adran gan amlinellu beth sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor, adrodd ar berfformiad yr adran ynghyd a'r sefyllfa ariannol. Mynegwyd balchder fod yna gynnydd wedi ei wneud er gwaethaf yr heriau oedd yn wynebu'r adran a'r mwyafrif o'r rhain o ganlyniad i anawsterau capasiti o fewn yr adran. Diolchwyd I'r adran am eu hymroddiad i'r maes a'r unigolion maent yn ei gefnogi, ac ar y cyfan ei fod yn fodlon a pherfformiad yr adran.

Nodwyd fod nifer o'r materion sydd wedi eu codi yn yr adroddiad perfformiad hefyd wedi eu hamlygu fel rhan o'r archwiliad diweddar a gafwyd gan Arolygaeth Gofal Cymru. Eglurwyd y bydd adroddiad pellach am yr archwiliad yn dod i'r Pwyllgor Craffu Gofal cyn hir.

Tywyswyd drwy brosiectau Cynllun y Cyngor a oedd yn cynnwys safle Penrhos sydd yn gynllun ar y cyd gyda'r Adran Dai ac Eiddo ynghyd â'r cynnydd mewn gwlâu dementia yn y sir a'r pryder am unedau gwag o ganlyniad i ddiffyg staffio. Amlygwyd mai un o brif anawsterau yr adran yw recriwtio a chadw staff ac esboniwyd fod hyn yn fater sydd yn cael ei drafod yn gorfforaethol o fewn y Cyngor ynghyd ac yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

O ran perfformiad yr adran nodwyd fod camau breision wedi eu gwneud i sicrhau mesurau cywir. Tynnwyd sylw at nifer ar y rhestrau am ofal cartref gan nodi fod yn nifer yn parhau i gynyddu ac fod hyn o ganlyniad i ddiffyg capasiti o ran staffio. Esboniwyd fod yr adroddiad diwethaf yn amlygu rhwystredigaeth gyda mesurydd yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl gan fod staff y timau integredig yn parhau i ddefnyddio ffeiliau papur. Mynegwyd fod gwaith wedi ei wneud i ddod o hyd i fesurydd dros dro i'r gwasanaeth hwn.

O ran y sefyllfa ariannol, nodwyd fod rhagolygon ariannol fel rhan o adolygiad diwedd Awst yn rhagamcanu gorwariant o £1.9miliwn gan yr Adran erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Eglurwyd fod yr adran yn cyflwyno bidiau er mwyn gallu parhau gyda gwasanaethau statudol neu newidiadau deddfwriaethol. Mynegwyd fod yr adran ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd i gyflawni rhai gwasanaethau mewn ffordd wahanol a drwy hyn cyflawni arbedion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod heriau staffio i'w gweld ar draws y Cyngor a hynny oherwydd methu recriwtio ac nid oherwydd diffyg ariannol. Pwysleisiwyd nad oes ateb hawdd i'r broblem ac fod hyn o ganlyniad i benderfyniadau ar lefel Brydeinig. Eglurwyd fod yr adran yn edrych ar beth mae siroedd eraill yn ei wneud er mwyn sicrhau gwasanaethau a gwneud defnydd gorau o'r gefnogaeth sydd ar gael.
- Eglurwyd fod £1.9miliwn o orwariant yn cael ei ragweld ac fod £1m arall o arbedion nad ydynt wedi eu cwblhau yn ogystal â hynny, heb edrych ar arbedion y flwyddyn nesaf. Nodwyd fod cyfarfod gyda'r adran yn cael ei gynnal yn fuan i edrych ar y sefyllfa hynod heriol yma.
- Nodwyd fod pryder am allu'r adran i fesur perfformiad ond fod mesurau bellach yn cael eu datblygu. Eglurwyd fod peth ffordd i fynd eto ond fod camau breision wedi eu gwneud.

**13. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Elin Walker Jones

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn rhoi diweddariad ar waith yr adran gan amlinellu beth sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor, adrodd ar berfformiad yr adran ynghyd a'r sefyllfa ariannol. Diolchwyd i staff yr adran am eu hymroddiad i blant a phobl ifanc yn sir.

Eglurwyd fod prosiectau blaenoriaeth yn parhau i symud yn eu blaen er fod staff wedi eu dargyfeirio i gefnogi unigolion o'r Wcrain. Eglurwyd fod y blaenoriaethau yn cyd-fynd a prif risgiau'r adran a nodwyd fod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y prosiectau hyn. Tywyswyd drwy'r prosiectau a oedd yn cynnwys nodi fod Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd wedi derbyn cadarnhad o ran ei ariannu ac yn gallu symud ymlaen gyda'r gwaith. Mynegwyd fod yr adran wedi llwyddo i recriwtio i swyddi yn y tîm cyfeiriadau er mwyn ymateb i'r cynnydd sydd wedi bod mewn galwadau a rhestrau aros.

O ran y Cynllun Cefnogi Pobl nodwyd fod gwaith yn parhau ond bellach yn canolbwyntio ar yr argyfwng costau byw. Amlygwyd gwaith y Cynllun a oedd yn cynnwys, ymestyn y rhwydwaith hybiau a chyfres o ddigwyddiadau galw heibio.

Nodwyd fod capasiti gweithlu yn broblem o fewn yr adran hon yn ogystal, ac fod gwaith diweddar wedi ei wneud gydag ymgynghorydd annibynnol ond nad oedd canlyniad i'w gweld eto. Eglurwyd fod newid wedi bod yn natur yr achosion sydd yn cyrraedd yr adran gydag anghenion plant yn dwysáu ac o ganlyniad angen pecynnau gofal fwy cymhleth.

Eglurwyd fod rhagolygon yn amlygu y fod yr adran yn debygol o orwario o oddeutu £88,000. Mynegwyd fod yr adran wedi rhoi cais am dros £1m o fidiau er mwyn cwrdd â phwysau ychwanegol ac i gyflawni cynlluniau blaenoriaeth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd o ran y Cynllun Cefnogi Pobl beth yw'r ymateb sydd wedi ei dderbyn gan y cyhoedd. Eglurwyd ei fod wedi bod yn amrywiol gyda llawer yn gwerthfawrogi'r cymorth sydd ar gael.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3:25pm

**CADEIRYDD**